CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 15ed MAWRTH 2022

PRESENNOL:
Dim Cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd Coronafeirws. (Y Clerc mewn cysylltiad a`r Cadeirydd a`r Cynghorwyr trwy ebost neu ffon.)

YMDDIHEURIADAU:

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.

CAEL COFNODION 15ed CHWEFROR 2022 YN GYWIR.

Ni chafwyd ymateb gan Cyng E D Owen.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2022/22. Cais llawn i greu Maes Carafanau Teithiol/Fan Wersyllfa 12 Llain yn:-
   Cefn Trefor, Trefor
   Gwrthwynebiad.
   Oherwydd mae`r agoriad yn beryglus, mae bron yn y groeslon. Mae carafanau ar ceir mor hir mae yn cymryd amser i droi i fewn yn achosi cynnwrff i arwain am ddamwain. Mae man Carafanu yn Llandrygarn. Mater i`r Adran Priffyrdd wneud y cyfiawnder, sef ei wrthod (Synnwyr Cyffredin)
   Cynnig J Evans, eilio R M Roberts.

2. FPL/2022/24. Cais llawn ar gyfer adeiladu Stabl Newydd yn ogystal a creu mynediad Amaethyddol newydd ar dir ger:-
   Tyn Rhos, Trefor.
   Hollol gwrthwynebu y Cynllun hwn.
   Mae giat bach wedi cael ei gosod yma dros nos yn ddistaw trwy gyngor y Cynghorydd Sirol i`r Perchennog.
   Mae y Capel yn fwgwd o`s bydd agoriad o`r chwith a traffig o lon Carmel. Nid ydyw yn bosib gweld y traffig o gyfeiriad Bodedern hyd y munud diwethaf. Mae yn ddigon annodd dod i`r lon o`r A5 ger y Tai Cyngor heb cael agoriad arall i edrych arni.
   Mae digon o ddamweiniau yma yn barod heb greu mwy.
   Beth am y manholes sydd yn y lon. A`r agoriad drod y lon yn Maglyn.
   Pan gwerthwyd y cae gan y Cyngor Sir r`oedd y perchennog yn gwybod na fuasai mynedfa i`r lon.
   Mae yn hollol annerbyniol ac os ydyw yr Adran Priffyrdd yn ei gefnogi mae yn hollol droseddol.
   Cynnig R R Roberts eilio Cyng J Evans.
   Cafwyd rhai Cynghorwyr yn ei gefnogi ond r`oedd mwy yn gwrthwynebu.

3. FPL/2022/36. Cais llawn i addasu yr adeilad presennol (gan gynnwys estyniad a gymeradwywyd fel rhan o`r cais Cynllunio FPL/2020/234) codi seilos ychwanegol, creu maes parcio ceir, creu mynediad newydd i gerbydau a cherddwyr, tirlunio ynghyd a gwaith cysylltiedig:-
   Mona Island Dairy. 8 Parc Diwydiannol Mona, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.

Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng R M Roberts.

PENDERFYNIADAU.

4. FPL/2021/341. Castell, Llynfaes.
   Caniatad. Derbyn.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

5. Swyddog Adran 151. Barbara Haynes.
   Grant Claddu Plant £1,000.
   Er gwybodaeth. Derbyn.

6. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   FW: Datganiad: Barn i helpu i lunio Cynllun y Cyngor 2022 - 27.
   Proses ymgysylltu ar y cod dros bum wythnos dechrau 10ed Chwefror.
   Cyngor Sir yn cynnal proses eang a chynhwysol gyda Medrwn Mon, sydd yn darparu cefnogaeth a chyngor i gyrff gwirfoddol a Chymunedol ac Age Cymru, yr elusen Genedlaethol ar gyfer pobl hyn yng Nghymru.
   Dweud ei dweud fel rhan o arolwg ar-lein "Blaenoriaethau Ynys Mon: Eich barn" www.ynysmon.gov.uk/eichbarn.
   Cwblhau`r arolwg fel unigolyn, teulu grwp cymunedol, neu Gynghorydd Sir, Tre neu Gymuned.
   Derbyn. Gobeithio bydd rhywfaint o ddiddordeb yn ymateb.

7. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Datganiad Lansio Gwfan Gymraeg Newydd ar Ddydd Gwyl Dewi.
   Derbyn. Posibilrwydd o fanylion yn y dyfodol.

GOHEBIAETH (ARALL)

8. Un Llais Cymru.
   Anfoneb Ffurflen Aelodaeth angen Tal £169.00.
   Yn seiledig ar 472 o anheddau trethadwy yn ol £0.360 yr annedd. Rhester brisio nid Cofrester Etholiadol. Cynnig Cyng E Williams eilio Cyng E W Roberts i ymelodi.

9. Cyng E W Roberts yn cynnig cael cyfarfod wyneb yn wyneb gyda Cyng E Williams yn eilio o Ebrill 2022 ymlaen. Yn Neuadd Goffa Bodwrog am ei bod ar gael. Bwriad mwyaf o gael gwybod faint o aelodau sydd am ail ethol am gyfnod arall.
   Yn anffodus nid oedd digon yn cytuno felly nid oedd yn bosib cael corwm.
   Oherwydd amgylchiadau gartref r`oedd y Clerc wedi cael cyngor meddygol ac am fod y Covid yn mynd i fynnu, ni fuasai yn ddoeth mynychu cyfarfod wyneb yn wyneb ar hyn o bryd.

RHODDION.

10. Hosbis Dewi Sant. Jane Jones.
    Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng H G Owen i rhoi £50.00. Nid oedd gwrthwynebiad.

PLWYFOL.

11. Angen llinell wen ar draws y lon yn groeslon Castell, Tynlon.
    Y Clerc wedi cysylltu ac Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.

MATERION ARIANNOL:

12. Cyfrif Rhedegol £10,346.66.
    Mynwent Gymunedol £6,890.00. (Grant Claddu CSYM £1,000.)